LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBOL IFANC

ENW: Carys Howells-Davies

BRO: Mydroilyn

Merch o'r dref yn mwynhau'r bywyd gwledig

Ar ôl 11 mlynedd yn gweithio i'r cyfryngau yn Llanelli, mae Carys Howells-Davies wedi cychwyn pennod newydd yn ei bywyd, gan symud i gefn gwlad Ceredigion a newid cyfeiriad ei gyrfa yn llwyr.

Bellach, mae'n Rheolwr Cyfrifon a Chymorth Gweinyddol gyda'r cwmni ymgynghori gwledig CARA Cyf ym Mydroilyn.

"Mae'r cwmni'n helpu ffermydd a busnesau gwledig gyda phopeth, o waith gweinyddol i reoli cyllid ac anfonebau. Rydyn ni hefyd yn cynghori ffermwyr ar sut i leihau eu hôl-troed carbon a gwella eu heffeithlonrwydd."

Sut mae Llwyddo'n Lleol wedi helpu?

Cafodd Carys gefnogaeth yr elfen Gyrfaol a oedd yn cyfrannu at ei chyflog ac yn cynnig cyfleoedd hyfforddi iddi.

"Roedd y rhaglen yn fuddiol iawn. Fe wnes i gwrs ar ddatgarboneiddio, sy'n sgil hanfodol ar gyfer fy swydd. Roedd cael y gefnogaeth yma'n gwneud y broses o newid gyrfa'n llawer haws."

Un o'r pethau gorau am y rhaglen, yn ôl Carys, oedd y digwyddiadau cymdeithasol. "Fe ges i gyfle i wneud ffrindiau newydd a chwrdd ag eraill oedd yn dilyn y cynllun. O swper yn y Moody Cow yn Aberaeron i drip i ZipWorld yn Bethesda, roedd y digwyddiadau hyn yn dangos faint sydd gan Gymru wledig i'w gynnig."

Beth nesaf?

Mae Carys yn edrych ymlaen at barhau i ddatblygu yn ei swydd a gwreiddio ei hun ym mywyd cefn gwlad.

"Rwy'n dal i ddysgu, ond dw i'n mwynhau'r cyfle i fod yn rhan o gymuned wledig.

Dw i hefyd eisiau defnyddio fy mhrofiad cyfryngau i helpu busnesau lleol gyda'u marchnata a'u cyfathrebu. Mae Llwyddo'n Lleol wedi dangos i mi nad oes rhaid i chi fyw mewn tref fawr i gael gyrfa werth chweil."

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government